

Maniffesto Addysg UNSAIN Cymru 2016
Er mwyn yr ysgolion, y colegau a'r prifysgolion sydd eu hangen arnom

Mae angen ysgolion, colegau a phrifysgolion o safon fyd-eang ar Gymru yn ogystal â gweithlu addysg sy'n cael eu gwobrwyo'n deilwng am eu cyfraniad. Cynhelir Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar 5 Mai 2016. **Defnyddiwch eich pleidlais i amddiffyn eich gwasanaethau cyhoeddus chi.**

Gall system addysg o safon fyd-eang sbarduno twf economaidd Cymru. Gall helpu i greu cymdeithas decach drwy ddarparu cyfle cyfartal i bawb a datgloi potensial pobl. Mae'r arweiniad hwn yn hawdd ei ddarllen ac yn dangos y polisïau addysg mae UNSAIN Cymru'n ymgyrchu drostynt yn Etholiadau Cymru. Darllenwch ef, dwedwch wrth eich ffrindiau a'ch cydweithwyr amdano, a gyda'n gilydd, gallwn herio'r ymgeiswyr ym mhob sedd yn y Cynulliad i fuddsoddi yn yr ysgolion, y colegau a'r prifysgolion sydd eu hangen arnom.

Dylai addysg fod ar gael i bawb yn ddirwystr, nid ar sail y gallu i dalu. Mae ein sefydliadau addysgol yn darparu dysgu ac yn gwella rhagolygon pobl mewn bywyd ac ni ddylid byth eu hystyried yn beiriannau pres.

Mae mwy i addysg o safon fyd-eang na chyflogi athrawon a darlithwyr da. Yn hytrach, mae gan ystod o staff proffesiynol, gweinyddol, technegol a chynorthwyol rôl i'w chwarae. Mae gwella amodau gwaith, cyflog a chymhelliannau pob aelod staff yn flaenoriaeth.

EIN HYSGOLION

Mae'n bwysig bod cynghorau lleol yn goruchwylio ysgolion fel bod pobl leol yn cael dweud eu dweud. Dan reolaeth cynghorau, gall ysgolion weithio gyda'i gilydd a gwasanaethu'r gymuned yn fwy effeithlon.

Mae'r Cyfnod Sylfaenol a'r rhaglen Dechrau'n Deg ar gyfer plant 3-7 oed yn wych; maent wedi rhoi cymorth i deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig a dylent barhau.

Rydym am weithio gyda Llywodraeth Cymru ar strwythur cenedlaethol ar gyfer staff cymorth mewn ysgolion, fel bod yna gysondeb o ran lefelau a rolau ledled Cymru. Diben hyn yw sicrhau bod pawb yn yr ysgol, beth bynnag fo'u rôl, yn gweithio at safon y cytunwyd arni.

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu i roi diwedd ar anghydraddoldeb talu cyflog tymor yn unig i staff cymorth mewn ysgolion.

Rydym yn credu'n gryf mewn system addysg gynhwysfawr o safon fyd-eang ac yn gwrthod academïau ac ysgolion rhydd. Os yw staff yn meddu ar y sgiliau gorau ac os cânt eu cynorthwyo yn eu datblygiad proffesiynol, drwy Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg, bydd ein hysgolion yn llwyddo.

Bob dydd, mae aelodau UNSAIN mewn ysgolion yn darparu meddyginiaeth ac yn gweinyddu gofal personol i ddisgyblion, ac eto mae'r ddarpariaeth o hyfforddiant yn anghyson ac ni roddir cydnabyddiaeth ariannol am y cyfrifoldeb hwn. Mae canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru yma'n hanfodol.

ADDYSG BELLACH

Mae colegau'r un mor bwysig ag ysgolion a phrifysgolion: Mae AB yn cynnig ail gyfle hollbwysig i oedolion sy'n dychwelyd i addysg ac i'r rheiny o gymunedau difreintiedig; menywod yw'r mwyafrif o ddysgwyr mewn AB ac mae AB hefyd yn rhoi cymorth i fyfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu. Er gwaethaf hyn, mae colegau AB wedi dioddef toriadau yn eu cyllideb, ac nid oes ganddynt yr un bri ag ysgolion a sefydliadau Addysg Uwch.

Rydym am roi lle teilwng i AB ym mholisi addysg Cymru: gyda chyllid digonol a'r un lefel o barch ag Addysg Uwch ac ysgolion.

Mae astudiaeth ran amser neu astudiaeth hyblyg yn caniatáu i lawer o oedolion ddychwelyd i ddysgu, er eu bod yn aml yn wynebu diffyg cydweithrediad gan eu cyflogwr. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymhelliannau er mwyn sicrhau bod astudiaeth ran amser a dysgu gydol oes ar gael i bawb, gan ymrwymo i wir gydraddoldeb rhwng astudiaeth ran amser a llawn amser.

Mae prentisiaethau o ansawdd da, sy'n helpu pobl i symud o addysg i fyd gwaith ac i swyddi o safon yn hanfodol bwysig. Gallai cyflwyno prentisiaethau, wedi'u cyllido ag arian cyhoeddus sydd ar hyn o bryd yn cael ei gymryd allan ar ffurf elw.

Mae gan ddarparwyr addysg ddyletswydd i adlewyrchu amrywioldeb y cymunedau maent yn eu gwasanaethu a dylai gweithwyr fod â llais yn y penderfyniadau. Byddai monitro proffil y staff yn sicrhau bod y sefydliadau hyn yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus.

Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru'n allweddol i gynorthwyo mynediad y myfyrwyr tlotaf i addysg ôl-16, a rhaid iddo barhau.

Dylid gweithredu fframwaith cymwysterau ar gyfer staff cymorth yn AB, tebyg i'r hyn sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer staff mewn ysgolion, gan sicrhau hyfforddiant a datblygiad gyrfa. Yng nghyd-destun toriadau yng ngwariant cyhoeddus, mae'r gwahaniaeth rhwng rôl darlithydd a thechnegydd/arddangoswr yn mynd yn fwyfwy annelwig. Mae technegwyr ac arddangoswyr yn chwarae rôl allweddol mewn darparu addysg, ond ni allant gymryd lle darlithwyr.

ADDYSG UWCH

Rydym wedi ymrwymo i system addysg ddi-dâl wedi'i chyllido drwy drethi cyffredinol, ond rydym yn croesawu unrhyw ystyriaeth o ffyrdd tecach o ddarparu adnoddau ar gyfer addysg uwch. Rhaid i ymestyn mynediad i addysg bellach ac uwch i bobl dosbarth gweithiol fod yn flaenoriaeth i unrhyw lywodraeth sydd am fynd i'r afael â thlodi a'r lefel isel o sgiliau sydd yng Nghymru.

Mae sawl sefydliad AU wedi defnyddio'r toriadau yn y grant addysgu a'r cynnydd mewn ffioedd i leihau nifer yr aelodau staff cymorth yn ogystal â gostwng eu cyflogau a'u hamodau gwaith. Lle mae gwasanaethau cymorth wedi cael eu preifateiddio neu eu rhoi yn nwylo sefydliadau allanol, mae amodau cyflogaeth sylfaenol wedi cael eu herydu ymhellach. Yn aml, y prifysgolion hynny sy'n talu'r cyflog uchaf i is-ganghellorion sydd â'r nifer uchaf o staff ar gyflog isel neu ar gytundebau ansefydlog, ac mae llawer yn dioddef tlodi er eu bod mewn gwaith.

Dylai ein prifysgolion o leiaf fod yn gyflogwyr Cyflog Byw. Dylid gwrthwynebu pob ffurf o farchnadoli, gan y byddai hynny'n niweidiol i ansawdd y gwasanaethau a gynigir i fyfyrwyr ac i gyflog ac amodau gwaith y staff.

Mae ceisio creu marchnad mewn AU ac AB yn economi ffug; pan mae problemau difrifol yn codi'n nes ymlaen yn y cytundeb, y sector cyhoeddus sy'n gorfod datrys y llanast.

Dylid rhoi terfyn ar y cymorthdal i fyfyrwyr sy'n gadael Cymru i astudio. Dylid buddsoddi'r arian hwn yn AU Cymru a'r economi leol, nid mewn sefydliadau y tu hwnt i Gymru. Gellid cynnal cynllun mynediad neu fwrsariaeth i gynorthwyo myfyrwyr tlotach i astudio yn Rhydychen neu yng Nghaergrawnt.

Dylid hyrwyddo presenoldeb cynrychiolydd undeb ar gyrff llywodraethu colegau a phrifysgolion. Byddai'n cynyddu goruchwyliaeth ddemocrataidd / atebolrwydd o ran cyllido cyhoeddus a sut caiff sefydliadau eu llywodraethu.

Mae prifysgolion yn chwarae rôl hanfodol yn ein cymdeithas a'n heconomi, ac maent yn derbyn buddsoddiad cyhoeddus sylweddol. Serch hynny, nid ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus. Dylid sefydlu corff partneriaeth gymdeithasol newydd lle gall Llywodraeth Cymru, prifysgolion, undebau llafur ac UCM Cymru weithio gyda'i gilydd i greu system sy'n gweithio ar gyfer Cymru gyfan.

WULF

Bu Cronfa Ddysgu Undebau Cymru'n llwyddiannus, gan ddatgloi potensial pobl a'u gallu i ddysgu gydol oes. Wrth i gyllidebau hyfforddi'r gwasanaethau cyhoeddus gael eu torri, mae'n hanfodol bwysig amddiffyn cyllideb WULF er mwyn gwella sgiliau ein gweithlu.

Mae UNSAIN Cymru hefyd wedi cynhyrchu maniffesto cyffredinol, yn ogystal â maniffestos bach arbennig ar gyfer Iechyd a Llywodraeth Leol. I gael gafael ar gopïau, neu gopïau pellach, o faniffesto Addysg UNSAIN, cysylltwch ag a.gittins@unison.co.uk

Wedi'i gyhoeddi a'i brintio gan UNSAIN Cymru, Y Libart, Stryd y Gwynt, Abertawe SA1 1DP.
Ffotograffau ch. i'r dd.: Chris Schmidt, Chris Taylor, Malcolm Watson, Paul Box.